**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**13eg Gorffennaf 2009**

**CRYNODEB O'R GWEITHGARWCH ARCHWILIO MEWNOL 2008/09 AC ASESIAD O ANGHENION A CHYNLLUN ARCHWILIO DRAFFT AR GYFER 2009/10**

**Adroddiad gan Mike Halstead,**
**Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael**

## Diben yr Adroddiad

1 Derbyn crynodeb o'r gwaith Archwilio Mewnol a wnaed yn 2008/09.

2 Cymeradwyo Asesiad o Anghenion yr Archwilio Mewnol, a'r Cynllun Drafft Archwilio Mewnol ar gyfer 2009/10.

## Gwybodaeth

3 Dan amodau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, a wnaed dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, mae cyfrifoldeb statudol ar Awdurdodau Tân i gynnal "system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol."

4 Mae'r swyddogaeth Archwilio Mewnol yn cael ei chynnal ar ran yr Awdurdod Tân gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a swyddogaeth arfarnu annibynnol ydyw, ar gyfer adolygu gweithgarwch yr Awdurdod Tân ac Achub fel gwasanaeth, a hynny ar gyfer pob lefel o reolaeth.

5 Mae Rheoliadau Ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC) yn nodi y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno yn enw ATAGC mewn perthynas â'r cynllun archwilio am y flwyddyn ariannol sydd i ddod, ynghyd ag adroddiad ynghylch perfformiad yn erbyn cynllun gwreiddiol y flwyddyn ariannol flaenorol.

6 Y Prif Swyddog Tân a darparwyr yr archwiliad mewnol sy'n gyfrifol am bennu cynnwys y cynllun archwilio. Dylid llunio'r cynllun mewn ymgynghoriad â'r Archwilydd Allanol.

7 Ar hyn o bryd, KPMG yw Archwilydd Allanol yr Awdurdod Tân ac Achub.

8 Gellir rhannu'r gwaith archwilio mewnol yn fras yn bedwar categori:

(a) Archwiliadau Rheoleidd-dra, sydd wedi eu cynllunio i sicrhau bod:-

- Yr holl incwm sy'n ddyledus i ATAGC yn cael ei gasglu'n iawn, bod derbynebau amdanynt, a'u bod yn cael eu diogelu, eu bancio a'u cofnodi'n gywir.
- Yr holl daliadau a wneir yn cael eu hawdurdodi'n gywir, a hynny o fewn y gyllideb ac yn unol â'r Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol ATAGC.
- Yr holl staff wedi eu penodi'n gywir, ac yn cael eu talu yn unol â thelerau ac amodau eu penodiad.
- Gwerth am arian yn cael ei sicrhau am nwyddau a gwasanaethau a brynir.
- Eiddo ac asedau eraill yn cael eu cofnodi a'u diogelu'n gywir.

(b) Mae Archwiliad o Systemau wedi ei gynllunio i sicrhau bod yr holl systemau a gweithdrefnau sydd ar waith yn cynnwys rheolaethau digonol o'u mewn, a hynny er mwyn atal twyll ariannol neu anghysondebau arall, e.e. o leiaf dau o bobl yn ymwneud â phob gweithdrefn.

(c) Archwiliad o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Defnyddir hwn i brofi cyfanrwydd y systemau cyfrifiadurol sydd ar waith, a hefyd, trwy ymholi systemau cyfrifiadurol fel cymorth i ganfod twyll ariannol ac anghysondebau.

(d) Archwiliad o Gytundebau, sy'n cynnwys arfarniad ariannol o ddarpar-gontractwyr, ymchwiliad i'r rheolaethau sydd ar waith er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r Rheolau Sefydlog Cytundebau, ac ymchwiliad i sampl o'r cytundebau cyfredol a'r rhai a gwblhawyd, gan gynnwys gwirio'r cyfrifon terfynol.

9 Caiff adroddiad ei lunio yn dilyn pob archwiliad mewnol, a bydd yn:-

- Datgan diben, cwmpas, darganfyddiadau a chasgliadau'r archwiliad.
- Gwneud argymhellion er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw wendidau a nodir.
- Cynnwys cynllun gweithredu i fonitro a chynorthwyo wrth weithredu'r argymhellion.
- Darparu camau dilynol i'w cymryd o fewn cyfnod rhesymol wedi cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

## ADOLYGIAD O WEITHGARWCH 2008/09

10 Yn ystod 2008/09, darparwyd 55 o ddiwrnodiau archwilio, fel y nodwyd yn y cynllun archwilio statudol. Lluniwyd pum adroddiad yn ystod y flwyddyn, a oedd yn ymwneud â:-

- Y Gyflogres – Newidiadau i Gyflogau – i adolygu, profi ac adrodd ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r rheolaethau mewnol sydd ar waith, a hynny mewn perthynas â newidiadau i gyflogau.
- Credydwyr – Archwiliad o'r systemau sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau sy'n rheoli taliadau i Gredydwyr er mwyn darparu'r lefel briodol o sicrwydd i'r rheolwyr fod y rheolaethau mewnol yn gweithredu'n effeithiol.
- Cronfeydd Lles – Yr amcanion oedd arfarnu pa mor ddigonol yw'r gweithdrefnau a sefydlwyd gan ATAGC a'r cydymffurfiad priodol â gweithdrefnau yn y Gorsafoedd Tân mewn perthynas â Chronfeydd Lles, gyda'r bwriad o adnabod unrhyw wendidau mewn rheolaeth fewnol, a meysydd o risg posib yn y system.
- Techneg Archwilio trwy gymorth cyfrifiadur (CAATS) - Y Gyflogres – IDEA, meddalwedd arbenigol ar gyfer ymholi, a ddefnyddir i ddadansoddi data o System y Gyflogres System er mwyn adnabod twyll ariannol a chamgymeriadau posib.
- Rheoli Rhwydwaith - adolygiad o Bolisïau a Safonau Rhwydweithiau, Cysylltiadau a Mynediad a Diogelwch, Rheolaeth ac Arolygaeth, er mwyn sicrhau cyfrinachedd, cywirdeb ac argaeledd data.

11 Ynghlwm yn Atodiad A, ceir amserlen sy'n nodi barn yr archwiliad ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r prosesau rheolaeth fewnol mewn perthynas â'r holl aseiniadau archwilio a gynhaliwyd yn ystod 2008/09. Mae canlyniad pob archwiliad, a gwerthusiad o ba mor ddigonol yw'r amgylchedd rheolaeth fewnol, yn seiliedig ar nifer yr argymhellion a'u Graddiad Risg.

12 Mae'n amlwg fod yr archwiliadau'n gyffredinol wedi cael eu hasesu fel rhai'n darparu lefel gadarnhaol o sicrwydd fod y rheolaethau mewnol yn gweithio'n effeithiol, a bod y risgiau'n cael eu rheoli'n briodol. Fodd bynnag, roedd yr archwiliad o'r Cronfeydd Lles yn rhoi Barn Anfoddhaol. Gwnaeth yr adroddiad 18 o argymhellion i wella'r systemau rheolaeth fewnol, a derbyniwyd y rheini gan y rheolwyr. Mae archwiliad dilynol wedi ei drefnu yn gynnar yn 2009/10 er mwyn cadarnhau bod yr argymhellion wedi ei rhoi ar waith, a bydd hynny'n gwella'r rheolaeth fewnol sydd ar waith, ac yn rhoi'r sicrwydd i'r rheolwyr fod y systemau sydd mewn lle yn rhai cadarn.

13 Er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd yn ystod yr archwiliad, cafodd 38 argymhellion eu gwneud.

14 Cafodd cynlluniau gweithredu, yn nodi'r ymateb y cytunwyd arno, eu cyhoeddi gydag adroddiadau'r archwiliadau, a daeth y rhain yn ôl gan reolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub, ynghyd â'r camau i'w cymryd er mwyn sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu. Mae'r rheolwyr wedi cytuno i roi holl argymhellion yr archwiliad ar waith.

15 Mae Cod Ymarfer CIPFA ar Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn datgan "Mae cyfrifoldeb ar y rheolwyr i sicrhau bod y camau y cytunwyd arnynt yn cael eu gweithredu. Dylai'r Archwiliad Mewnol gael sicrwydd fod y camau wedi eu gweithredu". Mae proses ffurfiol ar gyfer olrhain yn cael ei gweithredu o fewn yr Adain, a hynny er mwyn cadarnhau bod yr argymhellion a wnaed yn adroddiadau'r Archwilio Mewnol wedi cael ei rhoi ar waith gan y rheolwyr o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt. Fel arfer, bydd archwiliad dilynol yn cael ei gynnal, fel arfer, chwe mis wedi i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi. Ynghlwm, yn Atodiad B, ceir rhestr o'r archwiliadau dilynol a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2008 hyd at 31 Mawrth 2009. Mae'n dangos nifer yr argymhellion a dderbyniwyd

ac a roddwyd ar waith wedi hynny gan y rheolwyr ym mhob maes, ac mae’n dangos newidiadau sy’n effeithio ar Farn yr Archwiliad. Bydd rhagor o waith dilynol yn cael ei wneud yn y meysydd hynny lle mae nifer sylweddol o argymhellion yn parhau’n amlwg.

16 Ynghlwm, yn Atodiad C, ceir crynodeb o’r gweithgarwch archwilio, ac mae’n dangos y dyraniad arfaethedig o ran adnoddau archwilio o ran diwrnodiau dynol yn yr adrannau a’r gwasanaeth, ac mae’n cymharu’r gwaith a wnaethpwyd mewn gwirionedd yn 2008/09 gyda’r cynllun. Mae’n amlwg o’r Crynodeb o Weithgarwch Archwilio Mewnol yn 2008/09 fod yr holl waith a gynlluniwyd ar gyfer 2008/09 wedi cael ei wneud.

BARN YR ARCHWILIAD

17 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaethpwyd yn ystod 2008/09, barn yr Archwiliad Mewnol ynghylch y systemau rheolaeth fewnol a sefydlwyd gan y rheolwyr i reoli’r risgiau a nodwyd, yw eu bod yn foddhaol.

ASESIAD O ANGHENION A CHYNLLUN ARCHWILIO DRAFFT AR GYFER 2009/10

18 Ynghlwm, yn Atodiad D, mae’r Cynllun Blynyddol Drafft ar gyfer 2009/10. Diben yr archwiliad blynyddol yw:-

- sefydlu blaenoriaethau o ran archwilio, a hynny ar y cyd â Rheolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub, ac yn seiliedig ar ddull, sydd ei hun yn seiliedig ar risg, i bennu anghenion yr Awdurdod o ran archwilio, a hynny ar ddechrau pob blwyddyn
- pennu’r adnoddau sydd eu hangen er mwyn cyflawni’r dyletswyddau gofynnol o ran archwilio
- ffurfioli tasgau’r archwiliad
- adolygiad o’r gwaith archwilio am y flwyddyn flaenorol

19 Fel arweiniad yn unig y bwriadwyd y cynllun archwilio. Fe allai newidiadau mewn amgylchiadau neu ryw ddigwyddiadau eraill na ragwelwyd arwain at amrywiadau yn y cynllun. Cafodd y cynllun ar gyfer 2009/10 ei lunio yn dilyn ymgynghoriad â Rheolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub. Mae’r cynllun hefyd yn cynnwys amser ar gyfer olrhain hynt yr argymhellion o’r archwiliadau blaenorol.

20 Ynghlwm, yn Atodiad E, mae Asesiad o Anghenion Archwilio Mewnol. Bwriad yr Asesiad, sy'n ymgorfforі dadansoddiad o risgiau, yw ymorol am bob agwedd o weithgarwch ATAGC - y gellir eu harchwilio – ac mewn ymgynghoriad â'r rheolwyr, bydd yn cael ei ddefnyddio i hwyluso'r dull sy'n seiliedig ar risg a ddefnyddir i bennu anghenion yr Awdurdod o ran archwilio, a hynny ar ddechrau'r flwyddyn.

**Argymhellion**

21 Bod y Crynodeb o weithgarwch Archwilio Mewnol am 2008/09 yn cael ei nodi, a bod yr Asesiad o Anghenion a'r Cynllun Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer 2009/10 yn cael eu cymeradwyo.

-

ATODIAD A

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**Yr Adain Archwilio Mewnol – Crynodeb o'r Argymhellion a Barn yr Archwiliad 2008/09**

| | Maes Archwiladwy | Cwmpas yr Archwiliad | Uchel | Canolig | Isel | Cyfanswm | Cytunwyd gan y Rheolwyr | Barn yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cronfeydd Lles | Rheoli ac Arolygu Cronfeydd Lles y Gorsafoedd Tân. | **6** | **7** | **5** | **18** | **18** | **Anfoddhaol** |
| 2 | Y Gyflogres – Newidiadau i Gyflogau | Y System Rheolaeth Fewnol sy'n gweithredu mewn perthynas â newidiadau i gyflogau. | **1** | **0** | **0** | **1** | **1** | **Boddhaol** |
| 3 | Credydwyr | Adolygiad o'r System Credydwyr a'r amgylchedd rheolaeth fewnol. | **3** | **7** | **2** | **12** | **12** | **Digonol** |
| 4 | CAATS – Y Gyflogres | Defnyddir IDEA, meddalwedd ymholi arbenigol, i ddadansoddi data o System y Gyflogres er mwyn adnabod camgymeriadau, problemau ac unrhyw wybodaeth berthnasol ar gyfer rheoli sy'n ymwneud â materion a thueddiadau penodol. | **0** | **0** | **2** | **2** | **2** | **Da** |
| 5 | Rheoli Rhwydwaith | Adolygiad o Bolisïau a Safonau Rhwydwaith, Cysylltiadau a Mynediad a Diogelwch, Rheolaeth ac Arolygiaeth. | **0** | **3** | **2** | **5** | **5** | **Boddhaol** |
| | | **Cyfansymiau** | **10** | **17** | **11** | **38** | **38** | |
| | | | | | | | **Da** | **1** |
| | | | | | | | **Boddhaol** | **2** |
| | | | | | | | **Digonol** | **1** |
| | | | | | | | **Anfoddhaol** | **1** |

**ATODIAD B**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**Amserlen Archwiliadau Dilynol 2008/09**

| | Disgrifiad | Cyf. Ffeil | Archwil-ydd | Dyddiad yr Archwiliad | Dyddiad cam dilynol | Dyddiad cam dilynol | Dim Argymh. | Argymh. sy'n weddill | Barn ddiwygiedig yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Rheoli'r Fflyd - Tanwydd | VF0 191 | KVW | Ebr-08 | Medi-08 | Medi-08 | 6 | 5 | Boddhaol |
| **2** | Stocrestrau Gorsafoedd Tân a Pheiriannau | VF0 192 | KVW | Meh-08 | Chwef-09 | Mawrth-09 | 18 | 1 | Da |
| **3** | Rheoli Rhwydwaith | VF0 466 | DP | dygir ymlaen i 09/10 | | | | | |

**ATODIAD C**

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

## Crynodeb o Weithgarwch Archwilio Mewnol 2008/09

| | **Adran / Gwasanaeth** | **Diwrnodau a Gynlluniwyd 2008/09** | **Y Diwrnodiau mewn gwirionedd 2008/09** |
|---|---|---|---|
| **1** | Y Gyflogres – Newidiadau i Gyflogau | **8** | **8** |
| **2** | Cronfeydd Lles | **11** | **11** |
| **3** | System Credydwyr | **10** | **10** |
| **4** | CAATS - Y Gyflogres | **8** | **8** |
| **5** | Rheoli Rhwydwaith | **8** | **8** |
| **6** | Camau Dilynol –<br>Rheoli'r Fflyd – Tanwydd<br>Safleoedd a Stocrestrau Peiriannau | **5** | **5** |
| **8** | Cynllunio ac Adrodd ATAGC (yn cynnwys y Datganiad Sicrwydd Blynyddol a'r Asesiad o Anghenion) | **5** | **5** |
| **9** | Cronfa wrth gefn | **3** | **0** |
| | **CYFANSWM Y DIWRNODIAU** | **58** | **55** |

| | |
|---|---|
| **Diwrnodiau a Ddyrannwyd 2008/09** | **58** |
| **Y Diwrnodiau mewn gwirionedd 2008/09** | **55** |
| **Cyfanswm y Diwrnodiau a ddygir ymlaen i 2009/10** | **03** |

**ATODIAD D**

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
# Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol Drafft 2009/10

| Cyf. Ases. Anghen. | Adolygiad Archwiliad | Sylwadau | Diwr-nodiau | Adeg yn yr arfaeth |
|---|---|---|---|---|
| **Maes Risg – Risgiau Ariannol a Thwyll Ariannol** | | | | |
| **23** | Casglu Incwm a Bancio | Adolygiad o'r systemau rheolaeth fewnol sy'n gweithredu mewn perthynas â chasglu, derbyn a bancio incwm yr Awdurdod. | **8** | **Awst 09** |
| **27** | Menter Genedlaethol rhag Twyll Ariannol | Ymarferiad 'paru data' sy'n gynhwysfawr ac yn drylwyr, ac a drefnir gan y Comisiwn Archwilio mewn partneriaeth â Swyddfa Archwilio Cymru, yw'r Fenter Genedlaethol rhag Twyll Ariannol. | **7** | **Chwef. 10** |
| **28** | Prif Systemau Ariannol:<br>Credydwyr<br>Systemau Cyfrifydda | Y diwrnodiau a ddyrennir ar sail ymgynghorol i gynorthwyo a chynghori yn y prosiect i drosglwyddo o System Gyfrifydda Ymrwymiadau ATAGC i System AS400 Conwy, yn cynnwys y Cyfrifon sy'n Daladwy a'r Cyfriflyfr Cyffredinol. | **8** | **Parhau** |
| **Maes Risg – Rheoli a Thechnoleg Gwybodaeth** | | | | |
| **34** | E Lywodraeth | Nod yr archwiliad yw pennu i ba raddau y mae rheolaeth dros risg mewn perthynas â'r canlynol:<br>• gweledigaeth e-Lywodraeth<br>• cydweithio, e.e. rhwng awdurdodau<br>• gofynion y cwsmer<br>• cyllido<br>• atebion technegol<br>• gallu – o ran pobl a sgiliau<br>• prosesau busnes<br>Mae'r ffocws ar reolaethau strategol am y risgiau allweddol sy'n bygwth y weledigaeth/rhaglen e-Lywodraeth. | **8** | **Tach. 09** |
| **36** | Diogelu Data | Pennu a yw gweithgarwch sy'n golygu prosesu data personol yn cyd-fynd â pholisïau a gweithdrefnau diogelu data yr Awdurdod, a ph'un a yw'r dulliau prosesu hyn yn cwrdd â gofynion y Ddeddf Diogelu Data 1998. | **8** | **Hyd. 09** |
| **Gwaith Archwilio Arall** | | | | |
| **-** | Cynllunio Archwiliadau, Adrodd a Rheolaeth Flynyddol | Darparu'r amser sydd ei angen ar gyfer yr elfen reoli o'r cytundeb. | **5** | |
| **-** | Olrhain hynt yr argymhellion blaenorol | Dilyn yr argymhellion a wnaed yn 2008/09 nad ydynt yn rhan o'r rhaglen uchod:<br>Cronfeydd Lles<br>Y Gyflogres – Newidiadau i Gyflogau<br>Y Gyflogres – CAATS<br>System Credydwyr<br>Rheoli Rhwydwaith | **6** | **Parhau** |
| **-** | Cronfa wrth gefn | Ar gyfer gwaith sydd heb fod yn y cynllun ond a nodir yn ystod y flwyddyn, a chyswllt/cyngor fel bo'r angen. | **3** | |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y diwrnodiau sydd eu hangen ar gyfer gwaith archwilio** | **53** | |
| **Diwrnodau a ddyrennir 2009/10** | **50** | |
| **Diwrnodiau a ddygwyd ymlaen o 2008/09** | **03** | |
| **Cyfanswm y Diwrnodiau sydd ar gael 2009/10** | **53** | |

**ATODIAD E**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

## Asesiad o Anghenion a Chynllun Archwilio y gwaith Archwilio Mewnol ar gyfer 2009/10

| | Y Brif System a'r Is-system | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Diwrnodiau 2009/10 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Risg – Rheolaeth a Llywodraethu Strategol** | | | | | | |
| 1 | Llywodraethu Corfforaethol | Y Trefniadau ar gyfer Cydymffurfio'n Gyfreithiol;<br>Llunio Polisïau a Phenderfyniadau;<br>Cynllun Dirprwyo;<br>Codau Ymddygiad – Y Swyddogion;<br>Codau Ymddygiad – Yr Aelodau;<br>Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth;<br>Cyflogau'r Prif Swyddogion;<br>Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol;<br>Gwrth-dwyll a Chwythu'r Chwiban;<br>Polisi Amgylcheddol. | A | | | Mae Cynllun Rheoleiddio 2008/09 yn nodi bod CIPFA/SOLACE, yn ddiweddar, wedi cyhoeddi 'Good Governance in Local Government-Framework.' Mae'r Datganiad ar Lywodraethu yn cynnwys y Datganiad cyfredol ar Reolaeth Fewnol, a bydd yn ofynnol o 2008/09 ymlaen. KPMG i adolygu p'un ai yw'r Awdurdod yn wybyddus â'r diweddaraf ym maes deddfwriaeth newydd ai peidio, a bod ganddo'r prosesau a'r gweithdrefnau priodol mewn lle. |
| 2 | Cynllunio Gwasanaethau | Cynllunio Corfforaethol;<br>Cynllun Integredig Rheoli Risg;<br>Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau;<br>Cynlluniau Uned Gwasanaeth;<br>Cynllun Gwella Asesiad Perfformiad Cynhwysfawr;<br>Moderneiddio;<br>Ymgynghori;<br>Asesu Risg;<br>Cael Adnoddau a Chymeradwyaeth Ariannol;<br>Uned Cydlynu Gwelliannau | B | | | Swyddfa Archwilio Cymru 2008/09 Cynllun Rheoleiddio - Trefniadau cywir ar gyfer sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau. Yn cynnwys adolygiad o'r trefniadau perfformiad corfforaethol a'r rheolaeth ariannol allweddol. |
| 3 | Rheoli Perfformiad | Rolau a Chyfrifoldebau;<br>Gosod targedau;<br>Casglu Data;<br>Rheoli Ansawdd Data;<br>Adrodd;<br>Defnyddio Gwybodaeth Rheoli i gefnogi Gwelliannau i'r Gwasanaeth | A | | | Cynllun Rheoleiddio 2008/09 – KPMG i adolygu p'un a oes gan yr Awdurdod drefniadau cadarn ac effeithiol mewn lle i atal a chanfod twyll ariannol ai peidio.<br><br>Archwiliad o'r Cynllun Gweithredu/Gwella Blynyddol a dangosyddion perfformiad. |

| | Y Brif System and Is-system | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Diwrnodiau 2009/10 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | Rheoli Risg,<br>Cynllunio rhag Argyfyngau, a Dilyniant Busnes | Polisi a Fframwaith;<br>Rolau a Chyfrifoldebau;<br>Hyfforddiant:<br>Cofrestr Risg Corfforaethol;<br>Integreiddio gyda'r Prosesau Rheoli;<br>Peirianweithiau Monitro a Sicrwydd;<br>Adrodd;<br>Cynllunio rhag Argyfyngau;<br>Asesu Risg;<br>Dilyniant Busnes;<br>Chwilio ac Achub mewn Trefi;<br>Cydymffurfio â'r Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004;<br>Gweithio gydag Asiantaethau Partneriaethol a Busnesau Lleol;<br>Fforymau Cydnerth;<br>Cyfleusterau Cynadleddau Symudol; | A | | | Gweler Cynllunio Gwasanaethau uchod. |
| 5 | Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth;<br>Polisïau, Arferion a Gweithdrefnau;<br>Cyfrifoldebau;<br>Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant;<br>Rheoli Perfformiad. | C | | | |
| **Maes Risg – Darparu Gwasanaeth yr Ochr Weithredol** | | | | | | |
| 6 | Gweithrediadau'r Ystafell Reoli<br><br>Ymateb i Ddigwyddiadau a'u Rheoli | Cydymffurfio â Lliniaru Risg Allweddol;<br>Gweithdrefnau Anfon Allan;<br>Blaenoriaethu Ymateb i Ddigwyddiadau;<br>Monitro a Mesur Perfformiad;<br>Staffio ac Adnoddau;<br>Hyfforddiant<br>Y System Rheoli Digwyddiadau. | C | | | Agenda Creu'r Cysylltiadau |

| | Y Brif System a'r Is-system | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Diwrnodiau 2009/10 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | Gweithdrefnau Galwadau Ffug | Polisi a Gweithdrefn;<br>Cofnodi a Monitro;<br>Addysg;<br>Cyfathrebu. | C | | | |
| 8 | Diogelwch Tân Cymunedol a'r Tasglu Llosgi Bwriadol | Cyfathrebu;<br>Addysg;<br>Cael adnoddau;<br>Proffilio Risg;<br>Gweithio gyda Busnesau, Awdurdodau Addysg Lleol, Ymddiriedolaeth Plant a Phobl Ifanc, Tîm Troseddwyr Ifanc, Gwasanaethau Tân ac Achub eraill;<br>Prosiect systemau taenellu;<br>Larymau mwg;<br>Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref;<br>Digwyddiadau Diogelwch Cymunedol;<br>Mynd at Gerbydau | C | | | |
| 9 | Archwiliadau ac Ymchwiliadau | Cydymffurfio â Pholisïau;<br>Rhaglen Arolygiadau;<br>Asesiadau ar-lein;<br>Cydymffurfio â rheolau adeiladu;<br>Dyrannu trwyddedau/tystysgrifau;<br>Incwm o archwiliadau a thrwyddedau | C | | | |
| 10 | Gweithio mewn Partneriaeth | Trefn Lywodraethu Partneriaeth<br>Asesu Risg;<br>Lleihau Trosedd ac Anhrefn;<br>Partneriaethau Strategol Lleol;<br>Cytundebau Ardal Leol;<br>Awdurdodau Addysg Lleol ac eraill. | B | | | Adolygiad Cenedlaethol o Weithio mewn Partneriaeth Swyddfa Archwilio Cymru 2006/07. |

| | Y Brif System a'r Is-system | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Diwrnodiau 2009/10 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Risg – Rheoli Pobl** | | | | | | |
| 11 | Iechyd a Diogelwch | Cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth;<br>Polisïau, Arferion a Gweithdrefnau;<br>Cyfrifoldebau;<br>Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant;<br>Rheoli Perfformiad;<br>Monitro ac Adrodd ynghylch Digwyddiadau;<br>Yswiriant (Atebolrwydd Cyhoeddus a Chyflogwyr) | B | | | |
| 12 | Rheoli Presenoldeb (lifrai a di-lifrai) | Cydymffurfio â Pholisi;<br>Cofnodi, ac adrodd ynghylch absenoldeb;<br>Gwybodaeth am Berfformiad | C | | | Adolygiad Cenedlaethol o Absenoldebau Salwch, Swyddfa Archwilio Cymru 2006/07. |
| 13 | Hyfforddi a Datblygu Staff (lifrai a di-lifrai) | Gweithredu'r System Integredig Datblygiad Personol (IPDS);<br>Asesu Sgiliau;<br>Portffolios Datblygu;<br>Adolygiadau o Ddatblygiad Personol;<br>Arfarniad o Berfformiad;<br>Cyfleusterau Hyfforddi;<br>Cynlluniau Hyfforddi ar y cyd;<br>Cynllunio ar gyfer Olyniaeth;<br>Datblygu Arweinyddiaeth (Gwella'r Gwasanaeth);<br>Hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar Werth | C | | | |
| 14 | Recriwtio a Dethol | Cydymffurfio â Pholisïau a Gweithdrefnau Recriwtio;<br>Cydraddoldeb a chynhwysiant;<br>Gwiriadau cyn cyflogaeth;<br>Rheoli Perfformiad. | C | | | Gwiriadau cyn-cyflogi e.e. tystlythyrau, gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, fel rhan o archwiliad CTB o ddechreuwyr ac ymadawyr 2007/08. |

| | Y Brif System a'r Is-system | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Diwrnodiau 2009/10 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Risg - Rheoli Prosiectau** | | | | | | |
| 15 | Rheoli Prosiectau | Uned Arbennig ar gyfer Prosiectau;<br>Rolau a Chyfrifoldebau;<br>Blaenoriaethu Prosiectau;<br>Asesu Risg;<br>Cydymffurfio â Prince 2;<br>Hyfforddiant mewn Rheoli Prosiectau;<br>Monitro a Chyflwyno;<br>Cyllido. | B | | | |
| **Maes Risg – Risgiau Ariannol a Thwyll Ariannol** | | | | | | |
| 16 | Cynllunio Ariannol a Rheoli'r Gyllideb | Trefniadau Cyllido<br>Dyrannu Adnoddau<br>Cynllunio Ariannol yn y Tymor Canolig<br>Gosod a chymeradwy'r gyllideb<br>Dirprwyaethau ariannol<br>Hyfforddiant i Ddeiliaid Cyllidebau<br>Monitro cyllidebau<br>Rhagweld/Adrodd Ariannol | A | | | Cynllun Rheoleiddio 2007/08 – Roedd y Cod Ymarfer ar Gyfrifydda mewn Llywodraeth Leol yn y DU– Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SoRP) yn golygu newidiadau pwysig i Gyfrifydda yn yr Awdurdod Tân ac Achub o 1 Ebrill 2007 ymlaen. Bydd KPMG yn cadarnhau bod Datganiadau Ariannol yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r gofynion statudol perthnasol.<br>Bydd trefniadau'r Awdurdod ar gyfer gosod y gyllideb a monitro perfformiad ariannol yn cael ei adolygu. |
| 17 | Y Gyflogres | Dechreuwyr, Ymadawyr, Newidiadau;<br>Rheoli Taliadau;<br>Ardystiadau;<br>Cywirdeb;<br>Monitro;<br>Adrodd. | A | | | Archwiliad Dechreuwyr ac Ymadawyr y Gyflogres 2007/08. Boddhaol oedd Barn yr Archwiliad.<br>Archwiliad y Gyflogres - Newidiadau i Gyflogau 2008/09. Boddhaol oedd Barn yr Archwiliad.<br>Archwiliad y Gyflogres – CAATS 2008/09. Da oedd Barn yr Archwiliad. |
| 18 | Lwfansau Gweithwyr a'r Aelodau | Hawliadau, awdurdodi a phrosesu mewn perthynas â:<br>Theithio a Chynhaliaeth; | D | | | Adolygiad o Lwfansau'r Aelodau yn Archwilio Mewnol 2005/06.<br>Da oedd Barn yr Archwiliad. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gwobrau am Wasanaeth Hir;<br>Adleoli;<br>Lwfansau Preswyl;<br>Lwfansau Meddygol;<br>Lwfansau Perthnasol Eraill. | | | | Cynhwyswyd Lwfansau Gweithwyr yn yr Archwiliad o'r Gyflogres - Newidiadau i Gyflogau 2008/09. |
| | **Y Brif System a'r Is-system** | **Meysydd Posib i'w Harchwilio** | **Asesiad Risg** | | **Diwrnodiau 2009/10** | **Sylwadau** |
| 19 | Pensiynau | Hysbysu'r Awdurdod sy'n Gweinyddu;<br>Gwirio newidiadau;<br>Ffioedd heb eu Hariannu. | C | | | Y Cynllun Rheoleiddio 2007/08 – KPMG i gadarnhau bod Datganiadau Ariannol yr Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion newydd Cyfrifon Pensiwn y Gwasanaeth Tân. |
| 20 | Caffael a Phrynu | Strategaeth Gaffael;<br>Effeithlonrwydd a Gwerth am Arian;<br>E Gaffael;<br>Cydymffurfio â Rheoliadau Ariannol a Rheoliadau Sefydlog Cytundebau;<br>Gweithdrefnau Prynu a Thalu;<br>Gwariant ar Gardiau Credyd;<br>Gwariant ag Arian Parod. | B | | | Barn Flynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch Gwerth am Arian. |
| 21 | Strategaeth Gyfalaf a Chyfrifydda | Gosod/Cymeradwyo'r Strategaeth a'r Rhaglen;<br>Monitro;<br>Cyfalafu/ Awdurdodi Gwariant;<br>Benthyca Darbodus;<br>Cyfrifydda a Rheoli Asedau Sefydlog;<br>Cofrestr Asedau Sefydlog;<br>Prisio/Dibrisio Asedau;<br>Yswiriant;<br>Cynlluniau Mentrau Cyllid Preifat (PFI) yn cynnwys TAW. | A | | | Cwmpas Swyddfa Archwilio Cymru 2006/07 – Adolygiad o'r Cyfrifon Terfynol, Cofrestr Asedau Sefydlog. |
| 22 | Rheoli'r Fflyd a Thanwydd | Caffael/Prydlesu;<br>Rheolaeth ac Unioniad Strategol;<br>Cynnal a Chadw ac Archwiliadau;<br>Materion sy'n ymwneud â Thanwydd a'r Defnydd ohono;<br>Gwaredu;<br>Yswiriant. | C | | | Adolygiad Archwilio Mewnol o Reoli'r Fflyd 2005/06.<br>Da oedd Barn yr Archwiliad.<br>Adolygiad Archwilio Mewnol o Danwydd 2007/08.<br>Boddhaol oedd Barn yr Archwiliad.<br>Cynllun Rheoleiddio 2007/08 – Adolygiad KPMG o'r Fflyd ac Asedau o ran Cerbydau. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 23 | Casglu Incwm a Bancio | Derbyn Taliadau;<br>Incwm Grant;<br>Incwm Praesept;<br>Gweithdrefnau Casglu a Chyfrifydda; | C | | 8 | Adolygiad o’r gweithdrefnau casglu a bancio mewn perthynas â’r holl incwm a gynhyrchir gan ATAGC. |
| | **Y Brif System a’r Is-system** | **Meysydd Posib i’w Harchwilio** | **Asesiad Risg** | | **Diwrnodiau 2009/10** | **Sylwadau** |
| | | Incwm Amrywiol;<br>Cydymffurfio â Pholisi Codi Tâl;<br>Incwm o Dystysgrifau Archwilio;<br>Diogelwch Arian a Bancio;<br>Yswiriant. | | | | |
| 24 | Storfeydd | Rheoli Stoc, Gwerth a Chofnodi;<br>Prynu a Derbyn;<br>Diogelwch yn y Storfeydd;<br>Diogelwch y System TG;<br>Gweithdrefnau Rhannu allan a Dychwelyd;<br>Yswiriant. | D | | | Adolygiad yr Archwiliad Mewnol 2003/04. Da oedd Barn yr Archwiliad. |
| 25 | Diogelwch yr Offer a’r Stocrestr | Lefel y Stocrestr;<br>Cofnodi ac Adolygu;<br>Marcio Offer;<br>Llogi Offer;<br>Diogelwch Lleoliadau;<br>Yswiriant. | C | | | Archwilio Mewnol Adolygiad 2007/08. Digonol oedd Barn yr Archwiliad. |
| 26 | Costau Cyfleustodau a Chytundebau Gwasanaeth | Tendro a Gwerth am Arian;<br>Monitro Costau;<br>Cydymffurfio â’r Rheoliadau Ariannol. | C | | | |
| 27 | Menter Genedlaethol rhag Twyll Ariannol | Lawrlwythiad y Gyflogres;<br>Lawrlwythiad y Credydwyr;<br>Ymchwilio i Allbwn yr Ymarferiad Paru Cenedlaethol. | B | | 7 | Bob 2 flynedd, paru data’r Fenter Genedlaethol rhag Twyll Ariannol oddi ar y gyflogres.<br>Archwiliad y Fenter Genedlaethol rhag Twyll Ariannol 2007/08. Da oedd Barn yr Archwiliad.<br>Cynllun Rheoleiddio Swyddfa Archwilio Cymru 2008/09. |
| 28 | Prif Systemau Ariannol<br>• Y Gyflogres<br>• Credydwyr<br>• Dyledwyr | Cyfanrwydd, Cywirdeb a Dilysrwydd Trafodion;<br>Cyfrifydda Cywir;<br>Monitro ac Adrodd;<br>Effeithlonrwydd; | A | | 8 | Yn dod dan yr Archwiliad o Systemau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn flynyddol.<br>Adolygiad o System Credydwyr ATAGC 2008/09. Digonol oedd Barn yr Archwiliad. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | • Rheoli'r Trysorlys<br>• System Gyfrifydda<br>• Gwrth-dwyll | Gwerth am Arian;<br>Dogfennu Systemau;<br>Cydymffurfio â Rheoliadau a Gweithdrefnau Ariannol. | | | | Dyrannwyd 8 diwrnod ar gyfer 09/10 ar sail ymgynghorol, a hynny er mwyn cynorthwyo a chynghori ynghylch trosglwyddo o System Gyfrifydda Ymrwymiadau'r Awdurdod Gyfrifydda Ymrwymiadau ATAGC i System Cyfrifon sy'n Daladwy a Chyfriflyfr Cyffredinol Conwy.<br><br>Mae Cynllun Rheoleiddio Swyddfa Archwilio Cymru 2008/09 yn cynnwys adolygiad o Strategaeth Reoli'r Trysorlys. |
| | **Y Brif System a'r Is-system** | **Meysydd Posib i'w Harchwilio** | **Asesiad Risg** | | **Diwrnodiau 2009/10** | **Sylwadau** |
| **Maes Risg – Enw da a Hyder ymhlith y Cyhoedd** | | | | | | |
| 29 | Y Weithdrefn Gwynion | Polisi, Gweithdrefn ac Arferion Da;<br>Cydymffurfio;<br>Monitro ac Adrodd;<br>Gwella Gwasanaethau;<br>Iawndaliadau. | C | | | |
| 30 | Cyfathrebu Corfforaethol | Y Strategaeth Gyfathrebu;<br>Marchnata a'r Cyfryngau;<br>Cyfrifoldebau;<br>Monitro Digwyddiadau | C | | | |
| **Maes Risg – Rheoli a Thechnoleg Gwybodaeth** | | | | | | |
| 31 | Strategaeth a Rheolaeth TG | Datblygu Strategaeth a Chael Adnoddau;<br>Fframwaith Polisïau a Rheolaeth;<br>Rheoli'r Rhyngrwyd ac Ebost;<br>Cyfrifoldebau;<br>Caffael a Datblygu TGCh;<br>Yswiriant. | C | | | |
| 32 | Rheoli Rhwydwaith | Diogelwch a Rheolaeth;<br>Diogelwch Corfforol a Rhesymegol;<br>Systemau Wrth Gefn ac Adfer wedi Trychineb;<br>Perfformiad;<br>Caledwedd, Cyfryngau, Topoleg:<br>Diogelwch a Rheolaeth:<br>Cefnogaeth i Reolwyr: | C | | | Cynhaliwyd yr archwiliad o Reoli Rhwydwaith yn 2008/09. Boddhaol oedd Barn yr Archwiliad. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Meddalwedd Cyfathrebu;<br>Cysylltiadau Di-wifr. | | | | |
| 33 | Telegyfathrebu (ac eithrio'r ystafell reoli) | Diogelwch a Rheoli;<br>Diogelwch Corfforol a Rhesymegol;<br>Systemau Wrth Gefn ac Adfer wedi Trychineb. | C | | | Cwmpas Swyddfa Archwilio Cymru 2006/007. |
| | **Y Brif System a'r Is-system** | **Meysydd Posib i'w Harchwilio** | **Asesiad Risg** | | **Diwrnodiau 2009/10** | **Sylwadau** |
| 34 | E Lywodraeth | Strategaeth;<br>Cael adnoddau;<br>Mentrau;<br>Perfformiad. | C | | 8 | Nod yr archwiliad yw pennu i ba raddau y mae rheolaeth am risgiau mewn perthynas â'r canlynol:<br>• Gweledigaeth e-lywodraeth<br>• Cydweithio, e.e. rhwng awdurdodau<br>• Gofynion y cwsmer<br>• Cyllido<br>• Atebion technegol<br>• Gallu – o ran pobl a sgiliau<br>• Prosesau busnes<br>• Ffocws ar reolaethau strategol am y risgiau allweddol sy'n bygwth y weledigaeth/rhaglen e-Lywodraeth. |
| 35 | TG yr Ystafell Reoli | Ffonau Symudol;<br>Systemau Radio;<br>Systemau Galw Allan;<br>Diogelwch Corfforol;<br>Systemau Wrth Gefn ac Adfer wedi Trychineb;<br>Monitro Perfformiad. | C | | | |
| 36 | Diogelu Data / Rhyddid Gwybodaeth | Cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth;<br>Ymwybyddiaeth ymhlith y Staff;<br>Ceisiadau am Wybodaeth;<br>Monitro a Pherfformiad. | C | | 8 | Pennu a yw gweithgarwch sy'n golygu prosesu data personol yn cyd-fynd â pholisïau a gweithdrefnau diogelu data yr Awdurdod, a ph'un a yw'r dulliau prosesu hyn yn cwrdd â gofynion y Ddeddf Diogelu Data 1998 ai peidio. |
| **Maes Risg –Systemau Eraill** | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 37 | Gweithrediad y Ffreutur | Cytundeb a Monitro;<br>Hylendid Bwyd a Glanweithdra;<br>Hyfforddi Staff;<br>Casglu Incwm a Bancio;<br>Gweithdrefnau Archebu. | C | | | |
| 38 | Cronfeydd Lles | Gweithdrefnau Ysgrifenedig;<br>Cofnodion y Cronfeydd Lles;<br>Cysoniad Banc;<br>Archwiliadau Annibynnol. | C | | | Cynhaliwyd archwiliad o'r Cronfeydd Lles yn 2008/09. Anfoddhaol oedd Barn yr Archwiliad. |
| **Maes Risg – Gwaith arall yn ymwneud ag Archwilio** | | | | | | |
| | Cynllunio gwaith archwilio, Adroddiad Blynyddol a Rheolaeth | | | | 5 | |
| | Olrhain Argymhellion Blaenorol | | | | 6 | |
| | Cronfeydd wrth gefn | | | | 3 | |
| | | | **Cyfanswm 2009/10** | | **53** | |

**Asesiadau Risg - Mae'r Asesiad o Anghenion yn dogfennu pob prosiect, ac mae'n dyrannu Graddiad Risg mewn perthynas â phob maes archwiliadwy, yn seiliedig ar lenwi matrics risg sy'n cael ei gadw ar System Cynllunio Archwiliadau a'r Amgylchedd Reoli (APACE) yr Adain Archwilio Mewnol. Yr Asesiad Risg sy'n pennu graddiad y risg ac amledd pob archwiliad wedi hynny. Lle nad yw rhyw faes wedi cael ei adolygu'n ddiweddar gan yr Adain Archwilio Mewnol na Swyddfa Archwilio Cymru, rhoddir Graddiad 'C' wrtho hyd oni fydd archwiliad wedi ei gynnal, a bod modd gwneud barn wybodus yn ei gylch. Y Graddiadau Risg cyfredol yw:**

- **Graddiad Risg A - Risg Uchel sy'n gofyn am Adolygiad Blynyddol**
- **Graddiad Risg B - Risg Uchel sy'n gofyn am adolygiad bob 2 flynedd**
- **Graddiad Risg C - Risg Canolig sy'n gofyn am adolygiad bob 3 blynedd**

**Graddiad Risg D - Risg Isel sy'n gofyn am adolygiad bob 4 blynedd**